**Adroddiad ar**

**Little Inspirations – Llantrisant**
**Uned C**
**Parc Busnes Llantrisant**
**Llantrisant**
**Pontyclun**
**CF72 8YW**

**Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2016**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn yr arfarniadau hyn, mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol, ac mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella a/neu enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio |
| **Gwael** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau a/neu enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar blant |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ac AGGCC ar gael ar ein gwefannau priodol, sef:
www.estyn.llyw.cymru
www.cssiw.org.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2016**

## Ynglŷn â'r lleoliad

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Little Inspirations |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn Cofrestredig/Unigolion Cofrestredig | |
| Unigolyn Cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Jenine Gill |
| Unigolyn sydd â gofal | Gina Davies |
| Nifer y lleoedd | 104 |
| Ystod oedran y plant | 0 i 8 oed |
| Nifer y plant y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg | Tri |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 7.00am tan 6.00pm, dydd Llun i ddydd Gwener |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC | 20 Tachwedd 2014 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mawrth 2012 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn: | 26 a 27 Ionawr 2016 |
| Gwybodaeth Ychwanegol<br><br>Mae'r lleoliad yn darparu gofal trwy gyfrwng y Saesneg, gan ddefnyddio'r Gymraeg yn achlysurol. | |

## Crynodeb o'r adroddiad

| **Thema** | **Barn** |
|---|---|
| Lles | Da |
| Dysgu | Da |
| Gofal a datblygiad | Da |
| Addysgu ac asesu | Da |
| Yr amgylchedd | Digonol |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

**Diffyg cydymffurfio**

**Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau ysgrifennu cynnar plant

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddatblygu medrau datrys problemau plant

A3 Adolygu strwythur yr amserlen ddyddiol ar gyfer babanod i ganiatáu dewis gwell o weithgareddau i feithrin eu hannibyniaeth

A4 Gwella'r dull o sicrhau diogeledd gwell ar y safle

A5 Gwella cysondeb wrth gymhwyso gweithdrefnau da o ran hylendid

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn creu cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Lles | Da |
|---|---|

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu safbwyntiau'n dda ac yn gwneud dewisiadau yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu. Maent yn cyfathrebu'n glir ac yn gwybod y bydd ymarferwyr yn ymateb yn briodol i'w hanghenion a'u dymuniadau. Mae bron pob un o'r plant yn penderfynu beth yr hoffent ei wneud. Mae plant hŷn yn cyfrannu syniadau tuag at gynllunio ac fe gaiff y rhain eu cynnwys mewn cynlluniau tymor canolig. Er enghraifft, mae plant yn aml yn awgrymu coginio gan fod hwn yn weithgaredd poblogaidd y maent yn ei fwynhau. Yn ychwanegol, mae plant iau yn yr ystafell cyn-ysgol yn dewis p'un a ydynt am gael cyntun ar ôl cinio.

Mae gan y rhan fwyaf o blant ymlyniad clós ag ymarferwyr sy'n gofalu amdanynt ac felly maent fel arfer yn hapus a chysurus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu cyfnod yn y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o blant hŷn yn dechrau ffurfio cyfeillgarwch cadarn. Maent yn ddysgwyr hyderus ar y cyfan, sy'n barod i roi cynnig ar bethau newydd.

Mae bron pob un o'r plant yn cydweithredu'n dda â'u cyfoedion a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt. Mae ymddygiad yn rhagorol. Mae bron pob un o'r plant hŷn yn chwarae gyda'i gilydd yn briodol, gan rannu teganau ac adnoddau'n dda. Mae bron pob un o'r plant yn cynnal diddordeb mewn tasgau ac nid ydynt yn symud o un gweithgaredd i un arall. Er enghraifft, mae grŵp o blant yn treulio cyfnod hir yn gwneud uwd ac yn bwydo'r tri arth. Mae plant hŷn wrth eu bodd yn chwarae â cheir rheolydd radio tra bod rhai o'r plant o dan ddwy oed yn mwynhau chwarae ag ewyn eillio a gweithgareddau chwarae eraill sy'n creu llanastr. Mae'r rhan fwyaf o blant hŷn yn siarad yn hyderus am yr hyn y maent yn ei wneud. Mae plant yn gofalu am yr amgylchedd yn dda, ac mae'r rhan fwyaf o blant yn trin teganau ac adnoddau â gofal a pharch.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau hunangymorth. Mae bron pob un o'r plant iau yn ceisio bwydo eu hunain amser byrbryd ac amser prydau bwyd. Mae plant hŷn yn bwydo eu hunain o blatiau a phowlenni mwy, sy'n hyrwyddo eu medrau cymdeithasol ac annibynnol. Mae babanod a phlant bach naill ai'n cael amser i gerdded neu gropian o un ardal o'r feithrinfa i un arall, sy'n meithrin eu hannibyniaeth a'u datblygiad corfforol. Mae bron pob un o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau priodol, sy'n cefnogi eu datblygiad parhaus yn dda.

| Dysgu (yn berthnasol i blant sy'n cael eu hariannu yn unig) | Da |
|---|---|

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb i oedolion yn briodol. Mae llawer ohonynt yn siarad yn frwd ac yn fanwl am eu chwarae a'u dysgu, gan ddefnyddio ystod o eirfa addas. Er enghraifft, maent yn disgrifio'r pysgod anwes yn y lleoliad ac yn esbonio sut maent yn gofalu amdanynt. Mae bron pob un o'r plant yn ymuno'n frwdfrydig wrth ganu caneuon a rhigymau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn gwrando'n dda ar yr unigolyn sy'n adrodd y stori. Mae rhai ohonynt yn

cofio ymadroddion o'r stori ac yn ailadrodd y rhain gyda'r darllenydd. Mae llawer o blant yn dechrau trin a thrafod llyfrau fel darllenwyr. Wrth iddynt ddefnyddio ffonau clust i wrando ar stori, maent yn dilyn y lluniau ac yn troi'r tudalennau ar yr adeg gywir. Mae rhai ohonynt yn defnyddio ystod o gyfarpar ac offer ysgrifennu i greu marciau ar amrywiaeth o arwynebau, ond yn gyffredinol, nid yw plant yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gynigir i ymarfer y medrau hyn.

Mae medrau rhifedd plant yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfrif i ddeg gydag oedolyn, ac mae rhai ohonynt, sy'n fwy abl, yn cyfrif i ddau ddeg. Mae llawer o blant yn adnabod siapiau syml ac yn eu hamlinellu yn yr awyr. Mae bron pob un o'r plant yn ymuno wrth adrodd dyddiau'r wythnos, ac mae rhai ohonynt yn enwi dydd yr wythnos yn gywir.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol da. Maent yn mynd ati i ymuno mewn gweithgareddau grŵp ac yn foesgar a chwrtais yn ystod amser byrbryd. Mae rhai plant yn dyfalbarhau'n dda pan fyddant yn wynebu heriau a phroblemau i'w datrys. Er enghraifft, maent yn dal ati i ganolbwyntio ac yn cynnal eu diddordeb wrth wneud llun o dŷ allan o siapiau neu'n rhidyllu ceirch uwd a gliter trwy rwyll. At ei gilydd, nid yw medrau datrys problemau plant wedi datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio ystod o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus. Maent yn rheoli ceir o bell, yn gweithredu tegan rhaglenadwy yn gywir ac yn defnyddio ffonau clust i wrando ar storïau a chaneuon.

Mae llawer o blant yn datblygu arbenigedd cynyddol wrth ddefnyddio offer a chyfarpar bach ac mae ganddynt fedrau echddygol manwl da. Er enghraifft, defnyddiant siswrn yn dda i dorri patrymau mewn plu eira. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol gan ddangos cydbwysedd a rheolaeth ac maent yn symud yn rhythmig wrth fwynhau canu a dawnsio.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o ran datblygu medrau Cymraeg. Maent yn ymateb i orchmynion sy'n cael eu rhoi yn Gymraeg, yn ymuno mewn caneuon a rhigymau ac yn dechrau enwi lliwiau yn Gymraeg. Mae llawer ohonynt yn ateb cwestiynau ynglŷn â sut maent yn teimlo yn briodol.

| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
|---|---|

Rhoddir blaenoriaeth uchel i ddiogelu yn y lleoliad yn gyffredinol, ac mae'n ategu arfer ac arferion i sicrhau bod plant, staff ac ymwelwyr yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae nifer briodol o ymarferwyr ym mhob ystafell sylfaen sydd wedi cael yr holl hyfforddiant angenrheidiol mewn cymorth cyntaf pediatrig a diogelu i sicrhau diogelwch plant. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod gan blant ag alergeddau bwyd ddiet addas ac maent yn cofnodi eu hanghenion unigol yn briodol. Mae bwydlen dreigl tair wythnos yn darparu diet maethol amrywiol wedi'i goginio'n ffres ar gyfer pob un o'r plant.

Mae ymarferwyr yn delio â phroblemau iechyd plant mewn modd trylwyr ac amserol. Mae asesiadau risg yn fanwl ac wedi'u hysgrifennu'n dda ac mae ymarferwyr yn cynnal gwiriadau diogelwch dyddiol ar offer. Mae'r tîm rheoli wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd diogel lle gall plant chwarae a dysgu. Er enghraifft, mae rheolwyr yn archwilio amrywiaeth o faterion iechyd a diogelwch yn rheolaidd i nodi

tueddiadau neu broblemau i fynd i'r afael â nhw. Tynnwyd sylw'r unigolyn cyfrifol yn ystod yr arolygiad at rai o'r materion yn ymwneud ag arferion hylendid, gan nad oedd pob un o'r ymarferwyr yn rhoi polisïau'r lleoliad ar waith yn gyson.

Mae ymarferwyr yn gweithredu fel modelau rôl da o ran ymddygiad ac yn trin ei gilydd a'r plant â gofal a pharch. Maent yn gyson yn eu dull o reoli ymddygiad plant. Mae disgwyliadau o ymddygiad yn uchel ac fe gaiff ymddygiad plant ei reoli mewn modd cadarnhaol, cynnes a chalonogol. O ganlyniad, mae ymddygiad plant yn rhagorol. Mae arferion wedi'u sefydlu'n dda ac mae'r rhan fwyaf o blant yn gwybod beth yw'r disgwyliadau. Mae ymarferwyr yn cyflawni eu rolau yn effeithlon gan ddangos llawer o hyder.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad plant trwy gynllunio ac arfarnu gofalus. Maent yn asesu anghenion plant unigol yn dda ac fe geir system asesu glir o fabanod i'r cyfnod cyn-ysgol. Mae'r lleoliad yn darparu cymorth da ar gyfer plant y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n gweithio'n effeithiol gyda rhieni ac asiantaethau eraill fel ffisiotherapi a therapi galwedigaethol i fodloni anghenion y plant hyn. Gwneir defnydd da hefyd o gyngor gan asiantaethau arbenigol fel staff ymgynghorol yr awdurdod lleol, y nyrs therapi lleferydd neu epilepsi. Os oes angen, mae gan blant hŷn gynlluniau chwarae unigol i helpu i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ychwanegol. Mae'r rhain yn fanwl a'u hansawdd yn dda. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn sensitif i anghenion y plant ac yn cynllunio gweithgareddau yn unol â'r anghenion hynny. Fodd bynnag, nid yw'r amserlen ar gyfer y plant dan ddwy oed yn darparu digon o gydbwysedd rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan blant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion. O ganlyniad, nid oes digon o gyfleoedd bob amser i blant wneud dewisiadau i feithrin eu hannibyniaeth. Mae hyn yn arbennig o wir am y plant iau.

| **Addysgu ac asesu (yn berthnasol i blant sy'n cael eu hariannu yn unig)** | **Da** |
|---|---|

Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o brofiadau dysgu ysgogol. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau plant yn effeithiol trwy amrywiaeth o weithgareddau diddorol ar draws yr holl feysydd dysgu. Maent yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn llwyddiannus i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant yn benodol, ac adeiladu ar eu dysgu blaenorol. Er enghraifft, mae ymarferwyr wedi nodi bod angen datblygu medrau ysgrifennu cynnar ac maent wedi cyflwyno mwy o gyfleoedd i ymarfer creu marciau mewn llawer o ardaloedd yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd buddiol i blant roi cynnig ar fedrau newydd, er enghraifft wrth ddefnyddio'r ystod eang o offer TGCh, ond nid oes digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau datrys problemau bob amser.

Mae ymarferwyr yn cynnwys plant yn briodol mewn gweithgareddau cynllunio, ac fe gaiff plant gyfleoedd da i benderfynu beth yr hoffent ei ddysgu neu'i wneud. Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth fuddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i wella'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae plant yn ymweld â siop anifeiliaid anwes leol wrth ddysgu am anifeiliaid.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i blant ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru a chlywed yr iaith Gymraeg, ac ymarfer ei defnyddio. Mae

ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg trwy gydol y dydd i roi canmoliaeth ac anogaeth ac ar gyfer gorchmynion ac arferion. Maent yn cyflwyno plant i amrywiaeth dda o ganeuon a rhigymau Cymraeg fel rhan o arferion y lleoliad, ac maent yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae profiadau dysgu'n meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda. Maent yn tyfu llysiau yn yr ardd ac yn gofalu am y crwban a'r pysgod anwes. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ailgylchu ac yn arbed ynni'n briodol. Mae ymarferwyr yn annog plant i ailgylchu papur, cardfwrdd a gwastraff bwyd, troi tapiau i ffwrdd a diffodd goleuadau.

Mae gan ymarferwyr berthynas weithio dda gyda'r plant. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn dda trwy ganmoliaeth at atgyfnerthu cadarnhaol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen ac maent yn darparu llawer o gyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu trwy chwarae a gweithgarwch. Mae gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion yn symud yn gyflym ac yn cynnal diddordeb y plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio holi mewn modd effeithiol i herio plant ac ymestyn y dysgu. Maent yn datblygu medrau meddwl plant yn briodol trwy gwestiynau fel, 'Beth sy'n digwydd i'r ciwcymbr pan fyddwn ni'n ei gadw yn yr oergell?'

Ceir gweithdrefnau cryf ar gyfer asesu. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o arsylwi uniongyrchol i sicrhau eu bod yn cynllunio ar gyfer camau nesaf plant. Mae cofnodion yn gynhwysfawr ac yn creu darlun clir o gryfderau plant a'u meysydd i'w datblygu. Mae ymarferwyr yn hysbysu rhieni'n dda am gynnydd eu plant trwy gyfarfodydd anffurfiol a ffurfiol ac adroddiad ysgrifenedig defnyddiol.

| **Yr amgylchedd** | **Digonol** |
|---|---|

Mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod yr adeiladau'n cael eu cynnal yn dda a bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd glân a threfnus. Er enghraifft, mae systemau effeithiol ar waith ar gyfer glanhau, gan gynnwys cyflogi gwraig cadw tŷ sy'n gyfrifol am lanhau parhaus a gwaith cynnal a chadw cyffredinol.

Mae'r lleoliad yn cynnwys adnoddau da, ac mae'n darparu amgylchedd ysgogol ac atyniadol. Mae pob un o'r ystafelloedd wedi eu trefnu'n dda er mwyn i blant allu defnyddio adnoddau'n rhwydd. Mae adnoddau'n ysgogol ac yn hyrwyddo diddordeb a chwilfrydedd plant. Mae pob ystafell sylfaen yn cynnwys mynediad uniongyrchol i'r gofod chwarae yn yr awyr agored. Mae'r gofod yn yr awyr agored yn ofod chwarae a dysgu ychwanegol gwerthfawr i blant ac ymarferwyr ei ddefnyddio i ddatblygu lles a medrau plant yn effeithiol. Mae digon o adnoddau i sicrhau bod pob un o'r plant yn cael dewisiadau yn eu chwarae a'u dysgu. Mae ansawdd offer a dodrefn yn dda ac yn cael eu cynnal yn dda, maent yn addas at eu diben ac yn briodol ar gyfer gwahanol ystodau oedran y plant.

Mae ymarferwyr, arweinwyr a rheolwyr yn gydwybodol ar y cyfan ynglŷn â'u cyfrifoldebau iechyd a diogelwch. Maent yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch rheolaidd yn cael eu cynnal ac yn cwblhau asesiadau risg yn briodol. Fodd bynnag, er mwyn cael mynediad i'r feithrinfa, mae'r system bresennol yn dibynnu'n fawr ar gael rhieni ac ymwelwyr i ddilyn y weithdrefn yn gywir. Yn ystod yr arolygiad, ni ddilynodd pob rhiant ac ymwelydd y gweithdrefnau cytûn, a oedd yn golygu, o bryd i'w gilydd, nad oedd y lleoliad mor ddiogel ag y dylai fod.

| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |
|---|---|

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, ac maent yn rhannu'r weledigaeth hon gyda phob un o'r staff a'r rhieni.  Maent wedi ymrwymo i ddarparu safon uchel o ofal ac addysg ar gyfer pob plentyn yn y lleoliad.  Mae arweinwyr yn diweddaru datganiad o ddiben y lleoliad yn rheolaidd ac mae'n rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r lleoliad yn ei ddarparu.  Mae'r lleoliad yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn rhagori ar y safonau gofynnol cenedlaethol yn rheolaidd.  Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal trosolwg o waith y lleoliad ac mae'r unigolyn sydd â gofal yn ei hysbysu'n dda am ddatblygiadau neu unrhyw faterion sy'n codi.

Mae gan y lleoliad ddiwylliant o ddatblygu ei staff a'u hannog i ymgymryd â chyfrifoldebau.  Mae disgwyliadau uchel o staff gan yr unigolyn sydd â gofal a'r unigolyn cyfrifol, ac maent yn eu herio i wneud eu gorau.  Mae gan bob ymarferwr ddisgrifiadau swydd cyfoes sy'n gwneud eu cyfrifoldebau'n glir.  Mae system reolaidd o werthuso a goruchwylio yn gwneud yn siŵr bod pob ymarferwr yn ymwybodol o'i rolau a'i gyfrifoldebau a'u bod yn mynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella yn llwyddiannus.

Mae gan y lleoliad brosesau effeithiol ar gyfer recriwtio a defnyddio staff.  Ceir digon o ymarferwyr sydd â chymwysterau addas i gyflawni eu rolau a chefnogi anghenion pob un o'r plant yn effeithiol.  Ceir gweithdrefnau cadarn ar y cyfan i sicrhau diogelwch pob un o'r plant a'r staff, ac mae arweinwyr yn adolygu'r rhain yn rheolaidd.  Mae gan arweinwyr systemau addas i wneud yn siŵr bod pob un o'r staff yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau cytûn.  Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cyfarfod i adolygu asesiadau risg bob blwyddyn.  At ei gilydd, mae hyn yn sicrhau dull cyson ar draws y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i gael hyfforddiant a monitro ac arfarnu cynnydd.  Maent yn rhoi camau gweithredu cytûn ar waith o gyfarfodydd, ac fe geir ffocws cynaledig ar wneud cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r lleoliad.  Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r lleoliad, ac mae arweinwyr yn asesu ansawdd a digonolrwydd yr adnoddau'n rheolaidd.

Mae gan y lleoliad systemau effeithiol i arfarnu ei berfformiad.  Mae ymarferwyr arweiniol ym mhob ystafell yn monitro'r deilliannau ar gyfer plant yn eu sector ac mae hyn yn cyfrannu at ddarlun cyffredinol o'r lleoliad.  Mae hunanarfarnu'n defnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn briodol, ac mae'n ystyried safbwyntiau rhieni a gofalwyr.  Mae arweinwyr ar bob lefel yn gweithredu yn unol â'r wybodaeth o hunanarfarnu.  Maent yn llunio cynlluniau gweithredu priodol sy'n nodi blaenoriaethau clir ar gyfer pob sector ac yn monitro cynnydd tuag at dargedau yn dda.  O ganlyniad, mae ymarferwyr wedi gwella deilliannau a darpariaeth ar gyfer plant.  Er enghraifft, mae ymarferwyr wedi cynyddu faint o Gymraeg a ddefnyddir yn y lleoliad gan oedolion a phlant fel ei gilydd, ac maent wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh.

Ceir partneriaethau cryf gyda rhieni, ac maent yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at les plant.  Mae arweinwyr yn hysbysu rhieni'n dda am waith y lleoliad trwy gylchlythyrau rheolaidd, gwefan addysgiadol, cyfryngau cymdeithasol a hysbysfyrddau ynghylch digwyddiadau ac ymweliadau.  Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o gymorth gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am fentrau lleol a chenedlaethol a gwella arfer yn y Cyfnod Sylfaen.

# Atodiad 1

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dynodi ddim yn berthnasol.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf / Strongly Agree | Cytuno / Agree | Anghytuno / Disagree | Anghytuno'n gryf / Strongly disagree | Ddim yn gwybod / Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 20 | 16<br>80%<br>- | 4<br>20%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| My child likes this setting. | 19 | 17<br>89%<br>- | 2<br>11%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| I received information about the setting that enabled me to make an informed choice about whether to use the setting. | 20 | 16<br>80%<br>- | 4<br>20%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Derbyniais wybodaeth am y lleoliad a wnaeth fy ngalluogi i wneud dewis gwybodus ynghylch p'un ai i ddefnyddio'r lleoliad. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 18 | 16<br>89%<br>- | 2<br>11%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 2 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| My child has a keyworker who ensures that his or her needs are met. | 20 | 14<br>70%<br>- | 5<br>25%<br>- | 1<br>5%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae gweithiwr allweddol gan fy mhlentyn, sy'n sicrhau bod ei anghenion / ei hanghenion yn cael eu bodloni. |
| My child is making good progress at the setting. | 19 | 16<br>84%<br>- | 3<br>16%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| Children behave well in the setting. | 15 | 13<br>87%<br>- | 2<br>13%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 5 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| Care is good. | 20 | 16<br>80%<br>- | 3<br>15%<br>- | 1<br>5%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae'r gofal yn dda. |
| Teaching is good. | 18 | 15<br>83%<br>- | 3<br>17%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 17 | 14<br>82%<br>- | 3<br>18%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 15 | 15<br>100%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 5 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child is safe at the setting. | 20 | 16 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 14 | 11 | 3 | 0 | 0 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 20 | 14 | 4 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 70% | 20% | 10% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 20 | 14 | 6 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 18 | 11 | 6 | 1 | 0 | 2 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 61% | 33% | 6% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 16 | 13 | 3 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 18 | 9 | 8 | 0 | 1 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 50% | 44% | 0% | 6% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| The setting is well run. | 20 | 14 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |

# Atodiad 2

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn a gwefan AGGCC ( www.estyn.llyw.cymru) (www.cssiw.org.uk)

## Atodiad 3

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |

| | |
|---|---|
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |